# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

**COFNODION PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU**
**7 yh nos Fawrth Gorffennaf 28ain 2026**

1. **Presennol:**
   Cyng. Gwilym Jones (Cadeirydd), Cyng. Aled Griffith, Cyng. Edward Naish, Cyng. Alwyn Gruffydd, Cyng. Glenda Murray, Cyng. Michael Roberts, Cyng. Karena Owens, Cyng. Carol Hayes.
   Elfyn Lewis (Clerc).

2. **Ymddiheuriadau.**
   Cyng. Sarah Williams, Cyng. Dr. Melfyn Edwards, Cyng. Llywelyn Rhys (Is-gadeirydd), Cyng. Jeremy Davies.

3. **Absennol:**
   Cyng. Dion Humphreys, Cyng. Ben Humphreys.

**4. Cae Pawb:**
Bydd Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb yn gwerthu cynnyrch o'r gerddi er mwyn codi pres i elusennau lleol yn Y Ganolfan ar Awst 6ed.
Mae'r Clerc dal yn aros am anfoneb am y sgip.

**5. Llwybrau:**
Roedd Cyngor Gwynedd wedi ateb pryderon y Cyngor Tref am gyflwr truenus llwybr cyhoeddus Lon Haearn Fach. Roedd swyddogion Cyngor Gwynedd am docio y coed ar y llwybr ac am gysylltu gyda pherchnogion y tir sydd yn ymylu ar y llwybr i'w hatgoffa o'u cyfrifoldeb i gadw'r llwybr yn agored.
Mae'r gwaith wedi dechrau ar y llwybr newydd ar hyd y gwair yn Llyn Bach.

**6. Cae Bodawen**
Mae archwiliadau byd natur o'r safle yn cael eu cynnal yn ystod Mis Awst.
Gofnywyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Grid Cenedlaethol i drafod pa fath o offer fydd yn cymeryd lle yr offer chwarae presennol yn y parc fydd yn mynd o'r safle o ganlyniad i'r gwaith o ail-osod y ceblau trydannol.
Mae'r offer presennol yn hen a'r gobaith yw i gael offer modern yn eu lle.
Trafodwyd y posiblrwydd o gydweithio gyda ysgolion lleol er mwyn i blant yr ardal roi eu barn ar pa offer y buasent nhw ei hoffi gael yn y parc.

**7. Bryn Coffa**
Bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod Barry Edwards o'r Lleng Brydeinig i drafod tocio y coed ar Fryn Coffa cyn Sul y Cofio.

**8. Llochesi Bws**
Dim i'w adrodd.

**9. Cerflun Mr Madocks**
Dim i'w adrodd.

**10. Goleuadau Nadolig**

Mae'r Clerc yn cyd-weithio gyda R.J.Electrics gyda trefniadau dathlu'r Nadolig.

*Elfyn Lewis (Clerc/Clerk),39 Heol Fadog, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9BU*
*Ffôn / Tel : 01766 514210*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*